**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf /Our ref: MA/RE/3311/20

Llŷr Grufydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

08 Hydref 2020

Annwyl Llŷr,

Fel y trafodwyd, er mwyn sicrhau tryloywder mewn perthynas â'n dyraniadau yn ystod y flwyddyn, rwy'n bwriadu cyhoeddi ail gyllideb atodol ar gyfer 2020-21 cyn toriad mis Hydref. Mae'r llythyr hwn yn darparu manylion pellach, gan roi amser i'ch Pwyllgor gynllunio ar gyfer y gwaith craffu priodol.

Prif ddiben yr ail gyllideb atodol fydd adlewyrchu'r newidiadau pellach sydd wedi codi yn sgil y mesurau rydym wed'u cymryd i ymateb i effaith uniongyrchol y pandemig ers i gyllideb atodol gyntaf 2020-21 gael ei chyhoeddi ym mis Mai.

Rwy'n bwriadu cyflwyno'r ail gyllideb atodol ar gyfer 2020-21 ar 20 Hydref. Caiff y gyllideb ei chyhoeddi hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru ar yr un diwrnod.

Gan ystyried y toriad ym mis Hydref, rwyf wedi cytuno y byddaf yn cynnig y cynnig ar gyfer yr ail gyllideb atodol ar 17 Tachwedd. Mae hyn yn darparu wythnos arall ar ôl y cyfnod o dair wythnos a nodir yn y Rheolau Sefydlog.

Yn unol â'n harfer, byddaf yn dal i gyhoeddi cyllideb atodol arall tua diwedd y flwyddyn ariannol, a fydd yn cynnwys manylion llawn y pecyn ariannol a gyhoeddais yr wythnos hon i gefnogi'r adferiad, ac fe ysgrifennaf atoch eto yn nes at yr amser hwnnw.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gobeithiaf fod y diweddariad hwn o ddefnydd ichi.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd